Archwilio Cymru
Audit Wales

Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2861A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion 10

Diwylliant sefydliadol a gwella ansawdd 12

Strwythurau a phrosesau llywodraethu 19

Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd 23

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 26

Atodiad 2 – canfyddiadau'r arolwg staff 41

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Dylai ansawdd fod 'wrth wraidd' pob agwedd ar ofal iechyd ac mae rhoi ansawdd a diogelwch cleifion uwchlaw popeth arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n tanategu'r GIG yng Nghymru. Gall gofal o ansawdd gwael fod yn gostus hefyd o ran niwed, gwastraff ac amrywiad. Mae angen i sefydliadau'r GIG a'r unigolion sy'n gweithio ynddynt fod â fframwaith llywodraethu cadarn i helpu i sicrhau y darperir gofal iechyd diogel, effeithiol ac o ansawdd da. Un o ddibenion allweddol y trefniadau 'llywodraethu ansawdd' hyn yw helpu sefydliadau a'u staff i fonitro a, lle y bo angen, gwella safonau gofal.

2 Mae'r ymgais i wella ansawdd wedi cael ei atgyfnerthu mewn strategaethau iechyd a gofal cymdeithasol dilynol dros y ddau ddegawd diwethaf. Ym mis Mehefin 2020, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) yn gyfraith. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau mewn ansawdd ar draws systemau cyfan, yn ogystal â gosod dyletswydd gonestrwydd ar gyrff y GIG, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored a gonest pan fo pethau'n mynd o chwith i'w gwneud yn bosibl dysgu gwersi. Mae'r Ddeddf yn dynodi bod ansawdd yn cynnwys effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau ond nad yw'n gyfyngedig i hynny. Daw'r Ddeddf i rym yn 2023.

3 Rhaid i ansawdd a diogelwch redeg trwy bob agwedd ar gynllunio a darparu gwasanaethau a bod yn eglur yng nghynlluniau tymor canolig integredig cyrff y GIG. Disgwylir i gyrff y GIG fonitro ansawdd a diogelwch ar lefel y bwrdd a thrwy eu holl wasanaethau, partneriaethau a lleoliadau gofal. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein gwaith Asesu Strwythuredig blynyddol ledled Cymru wedi cyfeirio at amryw heriau, gan gynnwys yr angen i wella llifoedd sicrwydd mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch, goruchwyliaeth ar archwilio clinigol, a gwaith i dracio canfyddiadau ac argymhellion rheoleiddio ac arolygu. Bu hefyd nifer o bryderon proffil uchel ynghylch ansawdd gofal a mecanweithiau llywodraethu cysylltiedig yng nghyrff unigol y GIG.

4 O ystyried y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod byrddau'r GIG, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn cael eu sicrhau bod trefniadau llywodraethu ansawdd yn effeithiol a bod cyrff y GIG yn cynnal ffocws digonol ar ansawdd wrth ymateb i bandemig COVID-19. Mae fframwaith cynllunio cyfredol GIG Cymru'n adlewyrchu'r angen i ystyried y niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'n bwysig bod cyrff y GIG yn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu ansawdd yn cefnogi trosolwg sefydliadol dda ar y niweidiau hyn fel rhan o'u dull ehangach o sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol.

5 Fe wnaeth ein harchwiliad archwilio pa un a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad o gymorth i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd da. Fe wnaethom ganolbwyntio ar y dull sefydliadol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd, diwylliant ac ymddygiadau sefydliadol, strategaeth, strwythurau a phrosesau, llifoedd gwybodaeth a phrosesau adrodd. Mae'r adroddiad hwn yn

crynhoi canfyddiadau ein gwaith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) a wnaed rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2021. I brofi'r safbwynt 'o'r llawr i'r bwrdd', fe archwiliom ni'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau llawfeddygaeth gyffredinol.

Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau corfforaethol sydd wedi'u disgrifio'n glir ar gyfer llywodraethu ansawdd a'i feysydd ffocws allweddol ar gyfer ansawdd a diogelwch. Fodd bynnag, mae gwendidau'n dal i fodoli ar lefel isadrannau a chyfarwyddiaethau a allai effeithio ar lif sicrwydd o'r llawr i'r bwrdd.**

7 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi disgrifio'i feysydd ffocws allweddol blynyddol ar gyfer ansawdd a diogelwch a cheir trefniadau corfforaethol ac isadrannol rhesymol ar gyfer monitro risg gyda chraffu a herio da gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion ar risgiau i ansawdd a diogelwch a aseiniwyd iddo. Mae trefniadau ar gyfer monitro marwolaethau a morbidrwydd ac archwilio clinigol cenedlaethol yn datblygu ac mae perfformiad mewn perthynas ag ymateb i gwynion, a threfniadau ar gyfer dysgu gwersi, yn gwella. Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau sydd wedi hen ymsefydlu, mae'n annog staff i godi pryderon a cheir cydgyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch ymhlith Arweinwyr Gweithredol. Mae strwythurau a phrosesau ansawdd a diogelwch corfforaethol wedi'u disgrifio'n glir ac mae trefniadau ar gyfer monitro gwybodaeth am ansawdd a diogelwch yn gwella.

8 Fodd bynnag, canfuom rai bylchau mewn llifoedd sicrwydd ar safonau gofal iechyd rhwng strwythurau gweithredol a chorfforaethol. Mae hyn yn dynodi angen i sicrhau bod y fframwaith sicrhau ansawdd yn darparu eglurder ynghylch sut y mae system sicrwydd ansawdd a diogelwch 'o'r llawr i'r bwrdd' yn gweithredu'n ymarferol. Mae angen adolygu hefyd i ba raddau y mae gan staff gweithredol a rheolwyr ddigon o gapasiti i gefnogi trefniadau llywodraethu ansawdd mewn modd effeithiol. Ar lefel gorfforaethol, mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion yn craffu mewn modd cyfyngedig ar risgiau sydd ag effaith amlwg ar ansawdd a diogelwch ond a aseiniwyd i bwyllgorau eraill. Ar lefel cyfarwyddiaethau, nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro meysydd ffocws allweddol ar gyfer ansawdd a diogelwch ac adrodd ar y rhain wedi cael eu cwblhau eto ac nid yw'r modd y caiff risg ei monitro a'i huwchgyfeirio wastad yn effeithiol. Er bod adnoddau wedi cael eu neilltuo'n benodol i wella ansawdd, mae capasiti'r tîm wedi lleihau ac effeithiwyd ymhellach arno gan COVID-19. Mae gofyn gwella'r trefniadau ar gyfer archwilio clinigol ar draws y Bwrdd Iechyd ac yn lleol hefyd. Mae polisi Gweithio i Wella'r Bwrdd Iechyd wedi dyddio ac mae angen ei adolygu. Mae cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd wella sut y mae'n casglu gwybodaeth am brofiadau cleifion ac yn dysgu ohonynt mewn perthynas â gwasanaethau y mae'n eu darparu a gwasanaethau y mae'n eu comisiynu gan ddarparwyr eraill ac mae mwy i'w wneud i sicrhau bod staff yn

teimlo'n gysurus i hysbysu ynghylch pryderon, a'u bod yn cael adborth ar gamau gweithredu a gymerwyd.

Argymhellion

9 Caiff argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn wedi'i grynhoi yn **Atodiad 1**.

Arddangosyn 1: argymhellion

Argymhellion
Rheoli risg A1 Caiff risgiau isadrannol eu cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion, ond cyfyngedig oedd y dystiolaeth o ddadansoddi a thrafod manwl. Ceir tystiolaeth gyfyngedig hefyd bod y gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol yn cynnal cofrestrau risgiau sy'n nodi risgiau i ansawdd a diogelwch a chamau lliniaru mewn modd digonol. Dylai'r Bwrdd Iechyd: • sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer craffu, herio, trafod ar draws isadrannau a rhannu arfer da mewn perthynas â risgiau isadrannol yn y Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion. • sicrhau bod cofrestrau risgiau'n cael eu cwblhau a'u cynnal ar draws pob cyfarwyddiaeth a'r rheiny'n nodi risgiau i ansawdd a diogelwch a chamau lliniaru a bod trefniadau priodol ar gyfer uwchgyfeirio risgiau.
Archwilio clinigol A2 Yn ystod ein hadolygiad, roedd y Bwrdd Iechyd wrthi'n diweddaru ei strategaeth a pholisi archwilio clinigol ac wrthi'n datblygu cynllun archwilio clinigol ar wahân. Roedd cylch gorchwyl grŵp Effeithiolrwydd a Safonau Clinigol y Bwrdd Iechyd ar ffurf dogfen ddrafft ac yn cynnwys gwybodaeth a oedd wedi dyddio. Ar lefel weithredol, mae capasiti archwilio clinigol yn gyfyngedig ac nid yw systemau i rannu gwersi ac arfer da wedi'u gwreiddio nac yn systematig. Dylai'r Bwrdd Iechyd: • gwblhau'r gwaith ar ei strategaeth, polisi a chynllun archwilio clinigol. Dylai'r cynllun gwmpasu archwiliadau cenedlaethol gorfodol, archwiliadau corfforaeth-gyfan a lleol a oleuir gan feysydd risg. Dylai'r cynllun hwn gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion a dylai cynnydd o ran ei gyflawni gael ei fonitro'n rheolaidd.

Argymhellion

- diweddaru a chwblhau cylch gorchwyl y Pwyllgor Effeithiolrwydd a Safonau Clinigol.
- sicrhau bod digon o adnoddau a chapasiti ar gyfer archwilio clinigol ar lefel weithredol.
- sicrhau bod systemau ar gyfer dysgu ac arfer da o archwilio clinigol yn cael eu gwreiddio ar draws y sefydliad.

Gwerthoedd ac ymddygiadau

A3 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau sydd wedi hen ymsefydlu ac sy'n nodi ei weledigaeth ar gyfer diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch cleifion. Fodd bynnag, ceir darlun cymysg mewn perthynas â'r diwylliant o ran hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol a chodi pryderon a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â hwy. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud gwaith i ddeall pam fod rhai aelodau o staff yn teimlo:

- nad ydynt yn cael eu trin yn deg neu'n cael adborth wrth hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol.
- nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar bryderon y maent yn eu codi neu'n gweithredu i leihau i'r eithaf y tebygolrwydd y bydd gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol.

Profiad cleifion

A4 Er bod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio ystod o ddulliau i gasglu gwybodaeth am brofiad cleifion, nid yw diweddariadau rheolaidd am adborth cleifion wastad yn cael eu darparu ar gyfer meysydd gwaith neu adrannau ac nid yw trefniadau'n systematig ar draws y sefydliad na'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

- wneud gwaith i ddeall pam nad yw diweddariadau am adborth cleifion yn cael eu darparu'n rheolaidd ar gyfer meysydd gwaith neu adrannau.
- sicrhau bod trefniadau systematig ar gyfer coladu a gweithredu ar wybodaeth am brofiad cleifion ar draws y sefydliad a'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu.

Gweithio i Wella

Argymhellion

A5 Roedd Polisi Gweithio i Wella'r Bwrdd Iechyd i fod i gael ei adolygu yn 2018 ac mae'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi dyddio. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddaru'r Polisi Gweithio i Wella fel mater o flaenoriaeth.

Fframwaith ansawdd a diogelwch

A6 Mae fframwaith sicrhau ansawdd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys ystod o bwyllgorau a grwpiau sy'n cyd-fynd â Safonau Iechyd a Gofal. Mae'r fframwaith yn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i adnabod meysydd nad oeddent wedi darparu sicrwydd yn flaenorol. Fodd bynnag, ceir bylchau o hyd yn y llifoedd sicrwydd o rai is-grwpiau ac mewn perthynas ag elfennau o'r Safonau Iechyd a Gofal. Er bod y fframwaith yn weddol gynhwysfawr ar lefel gorfforaethol, nid yw'n disgrifio'r strwythur a phrosesau gweithredol ar gyfer ansawdd a diogelwch yn llawn. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) cwblhau ei adolygiad o'r fframwaith ansawdd a sicrwydd i sicrhau bod llifoedd sicrwydd yn briodol, a bod y fframwaith yn gweithredu fel a fwriadwyd.

b) disgrifio'r strwythurau a phrosesau gweithredol ar gyfer ansawdd a diogelwch o fewn y fframwaith sicrhau ansawdd a sut y maent yn cyd-fynd â'r strwythur corfforaethol i ddarparu sicrwydd 'o'r llawr i'r bwrdd'.

Adnoddau i ategu trefniadau llywodraethu ansawdd

A7 Mae gan yr isadran Gofal wedi'i Drefnu a'r gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol arweinwyr dynodedig ar gyfer sawl agwedd allweddol ar ansawdd a diogelwch. Fodd bynnag, canfuom nad oes gan rai arweinwyr dynodedig amser wedi'i ddiogelu ar gyfer y rolau hyn. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan staff gweithredol ddigon o amser a chapasiti i gyflawni'r rolau hyn yn effeithiol.

Sylw i faterion ansawdd a diogelwch

A8 Yn ddiweddar mae'r gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol wedi sefydlu ei grŵp ansawdd a diogelwch cleifion ei hun. Fodd bynnag, nid oes gan y grŵp gylch gorchwyl, agenda safonedig, na thempledi adroddiadau ac ni chymerir cofnodion o gyfarfodydd. Er bod ansawdd a diogelwch wedi cael eu cynnwys mewn adolygiadau chwemisol gyda'r Tîm Gweithredol a chyfarfodydd sicrwydd misol gyda'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, rydym yn nodi bod y cyfarfodydd sicrwydd misol wedi dod i ben ym mis Mawrth 2021. Canfuom ffocws cyfyngedig ar ansawdd a diogelwch yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli'r Isadran Gofal wedi'i Drefnu. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

Argymhellion

- adolygu'r grwpiau diogelwch ac ansawdd cleifion gweithredol i sicrhau eu bod yn cefnogi trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd yn effeithiol.
- sicrhau bod cyfarfodydd / fforymau gweithredol eraill yn darparu digon o ffocws ar ansawdd a diogelwch ochr yn ochr â materion cyllid, perfformiad a gweithredol.

Strategaeth weithredol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion

10 Fe wnaeth ein gwaith ystyried i ba raddau y mae blaenoriaethau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion a mynd ati'n effeithiol i liniaru'r risgiau i'w cyflawni.

11 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi disgrifio'i flaenoriaethau ansawdd a diogelwch blynyddol, ond bod angen iddo wella sut y mae'n monitro'r modd y cyflawnir y rhain. Mae risgiau i ansawdd yn cael eu rheoli'n briodol ar lefelau corfforaethol ac isadrannol ond mae angen cryfhau hynny ar lefel cyfarwyddiaethau.**

Blaenoriaethau ansawdd a diogelwch cleifion

12 **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi disgrifio'i flaenoriaethau ansawdd a diogelwch blynyddol ond mae angen bod blaenoriaethau ansawdd gweithredol yn cyd-fynd yn well â'r nodau ansawdd strategol. Mae angen cryfhau'r modd y mae'r broses o gyflawni'r blaenoriaethau hynny'n cael ei monitro a'r modd yr adroddir ar hynny.**

13 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi disgrifio'i ddull lle mae ansawdd a diogelwch yn y cwestiwn trwy ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2019-20 i 2021-22, ei Gynllun Blynyddol 2021-22, a'i Fframwaith Sicrhau Ansawdd 2020-23. Mae Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd 2021-22 yn nodi ei ymrwymiad i sicrhau bod pob unigolyn 'yn cael profiad cadarnhaol'. I gyflawni hyn, mae'r elfen Profiad, Ansawdd a Diogelwch o'r Cynllun Blynyddol yn ymgorffori pum nod allweddol sy'n disodli blaenoriaethau ansawdd y CTCI blaenorol:

- galluogi diwylliant diogelwch
- sefydliad sy'n dysgu
- diwylliant cyfiawn
- data ar gyfer ansawdd a gwella
- amgylchedd diogel.

14 Fel rhan o'i gylch cynllunio corfforaethol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys partneriaid allanol, gan gynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned, wrth ystyried blaenoriaethau a heriau. Mae ein trafodaethau gyda staff yn awgrymu mai ymwneud cyfyngedig fu gan feysydd gweithredol i helpu i lunio'r elfen Profiad, Ansawdd a Diogelwch o'r cynllun.

15 Mae camau cyflawni'r Bwrdd Iechyd wedi'u bwriadu i roi cymorth i gyrraedd ei bum nod ansawdd. Fodd bynnag, nid oes dyddiadau targed na cherrig milltir clir yn y camau cyflawni hyn. Ar ben hynny, nid oes fframwaith monitro ac adrodd yn ei le. Canfuom graffu a sicrwydd cyfyngedig gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion (Pwyllgor ADDC) ar y meysydd cyflawni allweddol hefyd. Mae hyn yn creu risg efallai nad yw'r pwyllgor yn gweld agweddau lle nad yw nodau cyflawni ansawdd yn cael eu cyrraedd neu lle mae cynnydd yn

gyfyngedig. Mae ein hadroddiad Asesu Strwythuredig 2021 hefyd yn amlygu gwendidau ac fe wnaeth argymhelliad ynghylch trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro cynnydd gyda Chynllun Blynyddol 2021-22[1].

16 Mae'r gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol a'r isadran Gofal wedi'i Drefnu'n nodi blaenoriaethau ansawdd diogelwch cleifion ac yn monitro cynnydd hefyd. Fe ddiwygiodd y gyfarwyddiaeth a'r isadran eu blaenoriaethau mewn ymateb i COVID-19. Fodd bynnag, nid ydynt wedi sicrhau bod eu blaenoriaethau gweithredol yn cyd-fynd â chamau cyflawni allweddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer ansawdd a diogelwch a nodir yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22.

Rheoli risg

17 **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diffinio'i barodrwydd i dderbyn risg ar gyfer diogelwch a phrofiad cleifion ac mae'n adolygu risgiau'n rheolaidd ar lefel y Bwrdd, pwyllgorau ac isadrannau. Fodd bynnag, mae angen cryfhau trefniadau rheoli risg ar lefel cyfarwyddiaethau.**

18 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddiwygio'i strategaeth a'i ddull rheoli risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ystod 2021. Mae hyn yn darparu mwy o ffocws ar uwchgyfeirio risg a sut y mae i gymorth i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Mae hefyd yn gosod cyfrifoldeb ychwanegol ar feysydd gweithredol i gymryd mwy o berchnogaeth ar reoli risgiau i gyflawni amcanion lleol.

19 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi mai lefel 1 yw ei oddefiant a pharodrwydd i dderbyn risg ar gyfer diogelwch a phrofiad cleifion, sy'n dynodi parodrwydd isel i dderbyn risg yn y maes hwn. Mae deg o'r deuddeg prif risg i'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch cleifion. Mae risgiau ansawdd yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r gofrestr risgiau corfforaethol wedi'u haseinio'n briodol i Gyfarwyddwr Gweithredol arweiniol dynodedig y Pwyllgor ADDC.

20 Mae ein harsylwadau ni ar y pwyllgor ADDC yn dynodi bod trafodaethau a chraffu da yn digwydd mewn perthynas â'r risgiau i ansawdd a diogelwch. Mae Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd yn fforwm allweddol yn y fframwaith sicrhau ansawdd a diogelwch. Mae'n darparu sicrwydd a chyngor ar gyfer y Pwyllgor ADDC ac yn cydlynu'r gwaith o reoli risgiau i ansawdd ar draws y sefydliad. Mae risg yn eitem sefydlog ar agenda'r grŵp. Mae hyn yn darparu llwyfan i bob isadran uwchgyfeirio'u risgiau a phryderon uchaf mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch. Yn ymarferol, fodd bynnag, canfu ein hadolygiad mai cyfyngedig yw'r craffu, herio, trafodaethau ar draws isadrannau a phrosesau i rannu arfer da mewn perthynas â'r risgiau a drafodir.

21 Ar lefel weithredol, mae isadran Gofal Heb Ei Drefnu'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ei chofrestr risgiau isadrannol ac yn ei rheoli'n weithredol. Mae risgiau i ansawdd a diogelwch ar y lefel hon yn cael eu disgrifio'n glir ac yn cael sgôr gyda rheolaethau

[1]https://www.wao.gov.uk/sites/default/files/publications/aneurin_bevan_health_board_structured_assessment_2021_welsh.pdf

a pherchnogion risg priodol yn cael eu nodi. Fodd bynnag, canfu ein gwaith fylchau yn y trefniadau rheoli risg ar lefel cyfarwyddiaethau. Nid oedd cofrestr risgiau ar gyfer y gyfarwyddiaeth llawfeddygaeth gyffredinol ar gael i'w hadolygu yn ystod ein gwaith maes. Mae trafodaethau gyda staff yn awgrymu bod y modd y cwblheir cofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau'n anghyson. Gallai hyn effeithio ar ansawdd y gofrestr risgiau isadrannol am ei bod yn ddibynnol ar uwchgyfeirio risgiau o lefel cyfarwyddiaethau. Rydym yn deall bod yr isadran Gofal wedi'i Drefnu wedi sefydlu cyfarfod chwarterol yn ddiweddar i adolygu risgiau cyfarwyddiaethau, i wella ansawdd y trefniadau hyn (**Argymhelliad 1).**

Diwylliant sefydliadol a gwella ansawdd

22 Dylai sefydliadau'r GIG fod â ffocws ar fynd ati'n barhaus i wella ansawdd gofal a defnyddio adnoddau y mae pen iddynt i gyflawni deilliannau a phrofiadau gwell i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Fe wnaeth ein gwaith ni ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn hybu diwylliant sydd â ffocws ar ansawdd a diogelwch cleifion, cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol a phrosesau gwella ansawdd ehangach.

23 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cynnal ffocws rhesymol ar wella ansawdd yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, ceir nifer o feysydd a ddylai gael eu cryfhau gan gynnwys archwilio clinigol, mynd i'r afael â phryderon staff a dulliau ar gyfer casglu gwybodaeth am brofiad cleifion a'i rhannu.**

Gwella ansawdd

24 **Mae capasiti'r tîm a neilltuwyd i Wella Ansawdd yn y Bwrdd Iechyd wedi lleihau dros y tair blynedd ddiwethaf, ac fe effeithiodd COVID-19 ymhellach arno. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n galed i ddatblygu ei drefniadau ar gyfer monitro marwolaethau a morbidrwydd ac archwilio clinigol cenedlaethol. Fodd bynnag, mae angen gwella rhaglenni archwilio clinigol lleol a chorfforaethol.**

Adnoddau i roi cymorth i wella ansawdd

25 Mae tîm Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan (ABCi) y Bwrdd Iechyd yn cynnwys 9.79 o staff cyfwerth ag amser llawn (CagALl) ar hyn o bryd (12 unigolyn). Ond o'i gymharu â thair blynedd yn ôl, mae adnoddau wedi cael eu lleihau. Effeithiodd y pandemig ymhellach ar gapasiti'r tîm ABCi gyda rhai aelodau o staff yn cael eu hadleoli i rolau eraill o fewn y Bwrdd Iechyd.

26 Mae'r tîm ABCi yn rhoi hyfforddiant a chymorth i dimau gweithredol. Mae'r pandemig yn cyfyngu ar weithgarwch hyfforddi arferol, ond mae'r tîm wedi parhau i ddarparu mewn lleoliadau rhithwir lle'r oedd yn bosibl. Mae'r tîm yn darparu amrywiaeth o hyfforddiant gwella ansawdd, dadansoddeg, modelu, ac arweinyddiaeth, megis 'Hyfforddiant Gwella Ansawdd Bach' a 'Hyfforddiant Gwella

Ansawdd PocED'. Mae'r hyfforddiant Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd wedi cael ei ddisodli gan Raglen Ymarferydd Gwella Iechyd Gwelliant Cymru. Fodd bynnag, dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn darparu dewis arall yn lle'r hyfforddiant Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd efydd ac arian. Mae ffigyrau diweddaraf y Bwrdd Iechyd yn dangos bod 4.7% o staff wedi cwblhau ei hyfforddiant sy'n cyfateb i hyfforddiant Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd.

Archwilio Clinigol

27 Mae archwilio clinigol yn ffordd bwysig o ddarparu sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Ar adeg ein hadolygiad ni roedd y Bwrdd Iechyd wrthi'n diweddaru ei Strategaeth a Pholisi Archwilio Clinigol. Bydd y rhain yn cynnwys gofynion i isadrannau ddatblygu eu cynlluniau archwilio clinigol eu hunain y bydd cynllun archwilio clinigol ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn seiliedig arnynt. Ond ar hyn o bryd nid yw'r cynllun archwilio clinigol yn ei le.

28 Yn gadarnhaol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gyflawni'r holl archwiliadau clinigol cenedlaethol gorfodol a darparu diweddariadau rheolaidd am gynnydd ar gyfer y Pwyllgor ADDC. Mae'r diweddariadau hyn yn nodi gwersi a chamau gweithredu i'w cymryd i fynd i'r afael â materion sy'n codi o'r adolygiadau. Mae tîm Cymorth Cyfarwyddwyr Meddygol (tîm CCM) y Bwrdd Iechyd yn cynnwys 7 o staff CagALl (9 unigolyn). Mae'r tîm yn cefnogi isadrannau a chyfarwyddiaethau, trwy hwyluso'r broses o gasglu data, ar archwilio clinigol cenedlaethol, adolygiadau o ddeilliannau ac archwilio clinigol lleol. Mae'r tîm hefyd yn cynorthwyo isadrannau i ddatblygu allbynnau data, cyflwyniadau, a chynlluniau gwella. Wedyn caiff y cynlluniau gwella hyn eu goruchwylio gan y Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol a Safonau. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn adolygu effeithiolrwydd ei dîm CCM i gynyddu i'r eithaf y cymorth y mae'n ei roi i feysydd gweithredol.

29 Nid yw trefniadau i roi cymorth i rannu gwersi ac arfer da ym maes archwilio clinigol ar lefel weithredol wedi ymsefydlu'n effeithiol nac yn systematig eto. Canfuom hefyd mai cyfyngedig yw adnoddau archwilio clinigol gweithredol i wneud gwaith archwilio clinigol lleol yn effeithiol ac yn gyson.

30 Ym mis Ionawr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd sefydlu'r Grŵp Effeithiolrwydd a Safonau Clinigol deufisol (grŵp ESC). Mae'r grŵp hwn yn darparu fforwm i uwch glinigwyr fonitro data ar ddeilliannau sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol, diogelwch cleifion ac iddynt fonitro gweithgarwch archwilio clinigol cenedlaethol ac ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae aelodaeth amlddisgyblaethol y grŵp ESC yn cynnwys pob isadran ac yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer Effeithiolrwydd Clinigol. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi golygu nad yw'r grwp hwn wedi gallu cwrdd fel a fwriadwyd ac amrywiol yw'r cyfranogiad. Yn y cyfarfod yr arsylwom ni arno, nid oedd unrhyw gynrychiolwyr o faes Gofal wedi'i Drefnu na Gofal Heb Ei Drefnu.

31 Hefyd, ar adeg ein hadolygiad ni roedd cylch gorchwyl y grŵp CCM ar ffurf dogfen ddrafft ac roedd peth dryswch ynglŷn â pha fersiwn oedd yn cael ei defnyddio. Cawsom wybod hefyd bod angen diweddaru rhai elfennau i adlewyrchu

newidiadau i gylch gwaith y grŵp **(Argymhelliad 2)**. Mae agendâu cyfarfodydd y grŵp CCM wedi'u strwythuro'n dda gyda chyflwyniadau da sy'n canolbwyntio ar archwiliadau clinigol cenedlaethol a materion eraill sy'n gysylltiedig ag ansawdd a diogelwch. Ceir trafodaethau am rai eitemau ar yr agenda sy'n arwain at ffocws ar gamau gweithredu a datrysiadau i fynd i'r afael â materion. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gryfhau hyn ymhellach trwy hybu'r arfer hwn sydd 'â ffocws ar gamau gweithredu' ar draws yr holl eitemau ar yr agenda. Lle nodir camau gweithredu, nid yw'n glir a yw'r grŵp CCM yn mynd ati'n rheolaidd i geisio sicrwydd pellach gan isadrannau i ddeall a yw camau gweithredu'n cael eu cyflawni ac yn barhaus.

Adolygiadau o farwolaethau a morbidrwydd

32 Mae cyfarfodydd i drafod marwolaethau a morbidrwydd yn darparu dull systematig ar gyfer adolygiad cymheiriaid o ddigwyddiadau niweidiol, cymhlethdodau, neu farwolaethau i ddysgu ohonynt a gwella gofal cleifion. Ym mis Tachwedd 2020, cafodd adolygiadau cyffredinol o farwolaethau eu disodli gan swyddogaeth yr Archwilydd Meddygol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl, erbyn mis Mai 2022, y bydd yr Archwilydd Meddygol yn craffu ar yr holl farwolaethau cleifion mewnol ac yn y gymuned.

33 Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd banel Sgrinio Adolygiadau o Farwolaethau ym mis Gorffennaf 2021. Mae gan hwn gynrychiolaeth amlddisgyblaethol ac ar draws isadrannau. Mae'r panel yn ystyried yr angen am ymchwiliad pellach i atgyfeiriadau'r Archwilydd Meddygol. Os oes angen, mae'r panel yn pennu cylch gorchwyl ymchwiliad ac yn penodi swyddog ymchwilio. Mae'r panel yn cyflwyno adroddiadau ar ddeilliannau ymchwiliadau i Grŵp Adolygu Marwolaethau'r Bwrdd Iechyd ac yn ddiweddar fe gyhoeddodd ei adroddiad Dysgu o Farwolaeth chwemisol cyntaf.

34 Mae dysgu ar y cyd yn elfen hollbwysig o'r pum lefel o reoli marwolaethau. Mae adroddiad Dysgu o Farwolaeth y Bwrdd Iechyd yn dangos sut y mae'r sefydliad yn dysgu ac yn gwella'i drefniadau yn dilyn ymchwiliad.
Mae'r gwelliannau o ran atal haint nosocomiaidd COVID-19 gan ddefnyddio Offeryn Asesu Cyflym yn enghraifft dda o hyn. Mae gwersi eraill a ddysgir yn dilyn ymchwiliadau'n cynnwys gwersi o drosglwyddiadau rhwng safleoedd, presgripsiynu steroidau, a chynllunio gofal rhag blaen. Mae'r adroddiad Dysgu o Farwolaeth yn nodi cyfathrebu fel thema sy'n ailgodi'n fynych ac yn nodi nifer o gamau gwella. Yn awr mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno proses systematig ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar ddeilliannau adolygiadau o farwolaethau a morbidrwydd i wahanol fforymau o fewn y Bwrdd Iechyd.

35 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu Fframwaith Dysgu o Farwolaeth yn ystod 2022. Bydd hwn yn dwyn ynghyd wybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys cwestau, adolygiadau o farwolaethau ac o forbidrwydd, prosesau cwynion Gweithio i Wella, a chraffu gan yr Archwiliwr Meddygol. Bydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau a gwelliannau ac yn cryfhau'r sicrwydd a ddarperir ar gyfer y pwyllgor ADDC ymhellach.

36 Gyda'i gilydd, mae'r Grŵp Adolygu Marwolaethau, y grŵp ESC a'r Grwp Cleifion sy'n Dirywio ac Adfywio yn paratoi adroddiad blynyddol ar y cyd. Nod yr adroddiad hwn yw darparu sicrwydd cyfunol ar gyfer y Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r pwyllgor ADDC ynghylch y trefniadau ar gyfer gofal sy'n ddiogel ac yn effeithiol yn glinigol. Canfu ein hadolygiad o'r adroddiad ei fod yn darparu digon o wybodaeth ar gyfer sicrwydd a gwneud penderfyniadau, gan ddangos lefelau cydymffurfio â safonau gofal iechyd a chamau gwella ar gyfer y 12 mis nesaf.

Gwerthoedd ac ymddygiadau

37 **Er bod fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau sydd wedi hen ymsefydlu, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod staff yn teimlo bod y sefydliad yn gwrando arnynt pan ydynt yn hysbysu ynghylch gwallau neu bryderon.**

38 Mae fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau'r Bwrdd Iechyd yn nodi ei weledigaeth ar gyfer diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch cleifion. Mae'n canolbwyntio ar wella'n barhaus, bod yn agored, tryloywder a dysgu pan fod pethau'n mynd o chwith. Mae gwerthoedd ac ymddygiadau wedi'u gwreiddio ym mhrosesau'r gweithlu, megis recriwtio, sefydlu ac arfarnu perfformiad ac adolygiadau o ddatblygiad. Maent hefyd yn cael cyhoeddusrwydd yn rheolaidd ac fe gyfeirir atynt yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd.

39 Datgelodd ein gwaith ddarlun cymysg mewn perthynas â'r diwylliant o ran hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol a chodi pryderon. Fe gynhaliom ni arolwg o staff gweithredol sy'n gweithio ar draws yr Isadran Gofal wedi'i Drefnu[2] (gweler y canlyniadau yn **Atodiad 2**). O'r rhai a ymatebodd, canfuom fod 58 allan o 83 aelod o staff yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn annog staff i hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol. Fodd bynnag, roedd 39 allan o 83 aelod o staff yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod staff sy'n gysylltiedig â gwall, digwyddiad trwch blewyn neu ddigwyddiad gwirioneddol yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad (**Argymhelliad 3**).

40 Roedd Arolwg Staff diweddaraf GIG Cymru[3] yn dangos cyfran leiafrifol ond sylweddol o bryderon ynghylch bwlio, aflonyddu neu gam-drin dros y flwyddyn

[2] Fe wnaethom wahodd staff gweithredol sy'n gweithio ar draws yr isadran Gofal wedi'i Drefnu i gymryd rhan yn ein harolwg ar-lein o agweddau tuag at drefniadau ansawdd a diogelwch cleifion. Fe roddodd y Bwrdd Iechyd gyhoeddusrwydd i'r arolwg ar ein rhan. Cawsom gyfradd ymateb o 83 aelod o staff. Er bod y canfyddiadau'n annhebygol o fod cynrychioli barn yr holl staff ar draws yr isadran Gofal wedi'i Drefnu, rydym wedi eu defnyddio i enghreifftio materion penodol.

[3] Cynhaliwyd arolwg staff GIG Cymru yn ystod mis Chwefror 2021 ar yr un adeg â'r ail ymchwydd mewn trosglwyddiadau COVID-19 a niferoedd cynyddol o dderbyniadau i ysbytai. 19% oedd y gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg, o'i gymharu â chyfartaledd ledled Cymru o 20%.

ddiwethaf (16.6%, 15.2% a 9.6% yn y drefn honno). Roedd llai na hanner yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn gweithredu'n effeithiol os yw staff yn cael eu bwlio neu os aflonyddir arnynt gan aelodau o staff neu aelod o'r cyhoedd (42.2%).

41 Mae hyfforddiant statudol a gorfodol yn bwysig i sicrhau diogelwch a lles staff a chleifion. Mae ffigyrau mis Tachwedd 2021 yn dangos cyfradd gydymffurfio o 76%[4] ar y cyfan gan y sefydliad â gofynion hyfforddi gorfodol. Mae'r lefel hon wedi aros yn gyson ers mis Tachwedd 2020. Canfu ein harolwg ni o staff yn yr isadran Gofal wedi'i Drefnu fod 42 allan o 83 aelod o staff yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod ganddynt ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol neu orfodol.
Mae'r isadran Gofal wedi'i Drefnu a'r gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol wedi dynodi eu bod yn datblygu cynlluniau i sicrhau bod staff yn cael mynediad at hyfforddiant ac yn cael amser i gwblhau modiwlau ar-lein. Er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn bryderus ac mae'n sefydlu gweithgor i roi cymorth pellach i gydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.

42 Nod adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu yw helpu staff i ddeall beth ddisgwylir ganddynt a chymryd cyfrifoldeb am eu perfformiad a'u datblygiad eu hunain. Yn erbyn targed cenedlaethol o 85%, roedd cyfradd gydymffurfio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer arfarniadau ym mis Tachwedd 2021 yn 59%. Mae hyn hefyd yn gyson fwy neu lai â'r gyfradd gydymffurfio a nodwyd gan yr isadran Gofal wedi'i Drefnu yn ystod ein gwaith maes, sef 50%. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio gwella trwy ei gyfarfodydd strategol ar gyfer Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu a dysgu ar y cyd. Gallai pwysau ar wasanaethau barhau i effeithio ar gyfraddau cwblhau Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu am beth amser.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

43 **Gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig, yn awr mae angen i'r Bwrdd Iechyd ailfywiogi ei ymdrechion i gasglu gwybodaeth am brofiad cleifion, adborth staff ac adolygiadau annibynnol a dysgu ohonynt.**

Profiad cleifion

44 Gall gwybodaeth am brofiad cleifion ddarparu mewnwelediad gwerthfawr i ansawdd gwasanaethau a ddarperir. Mae ein gwaith ni wedi canfod bod y pandemig wedi effeithio ar y trefniadau ar gyfer cael adborth.

45 Nid yw wedi bod yn bosibl i dîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn y Bwrdd Iechyd gynorthwyo isadrannau i gasglu gwybodaeth am brofiad cleifion yn yr un ffordd ag y byddent wedi'i wneud cyn y pandemig. Yn lle hynny mae'r Bwrdd Iechyd wedi dibynnu ar arolygon o brofiad cleifion ac adborth gan drydydd partïon.

[4] Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno adroddiadau misol i Lywodraeth Cymru ar gyfraddau cydymffurfio. 85% yw'r targed cydymffurfio ar gyfer yr holl fyrddau iechyd.

Ym mis Awst 2020, darparodd 96 o gleifion adborth trwy gynllun peilot. Er bod hynny'n fach o ran y niferoedd y cysylltwyd â hwy, fe wnaeth y cynllun arloesol hwn alluogi proses 'gyfeillio' rithwir ar gyfer cleifion mewnol, lle byddai dau aelod o'r tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn mynychu wardiau ac yn cysylltu cleifion â swyddogion yn y Cyngor Iechyd Cymuned.

46 Mae'r isadran Gofal wedi'i Drefnu a'r gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol yn defnyddio holiaduron, cwynion a chanmoliaeth, clinigau dilynol gofal critigol a storïau cleifion i gasglu gwybodaeth. Dywedodd yr isadran a'r gyfarwyddiaeth wrthym ni eu bod yn ceisio adborth gan gleifion ac yn rhannu gwersi. Fodd bynnag, canfu ein harolwg fod 38 allan o 83 aelod o staff yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd am adborth cleifion ar gyfer eu maes gwaith neu adran.

47 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i goladu a gweithredu ar wybodaeth am brofiad cleifion. Fodd bynnag, mae ein trafodaethau ni gyda staff y Bwrdd Iechyd yn datgelu nad yw'r trefniadau hyn yn systematig ar draws y sefydliad na'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu. Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu ar gyfer y Bwrdd Iechyd i gaffael System Rheoli Cwynion Unwaith i Gymru. Ei nod yw darparu adborth mewn amser real a'r gallu i gyflwyno adroddiadau 'o'r ward i'r bwrdd' **(Argymhelliad 4)**.

48 Ar lefel gorfforaethol, mae adroddiadau a ddarperir i'r Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r pwyllgor ADDC yn darparu trosolwg dda o weithgarwch profiad cleifion ochr yn ochr â meysydd i'w gwella. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu diweddaru ei Fframwaith Strategol Profiad Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr a ddaeth i ben yn 2019. Fodd bynnag, mae'n defnyddio egwyddorion 'yr hyn sy'n bwysig' ac mae'n disgwyl am y dull cenedlaethol wedi'i ddiweddaru o ran profiad cleifion sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu.

Cwynion a chanmoliaeth

49 Mae Polisi Gweithio i Wella'r Bwrdd Iechyd yn nodi ei drefniadau ar gyfer cwynion, hawliadau a digwyddiadau diogelwch cleifion. Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl staff a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd neu sy'n gweithio gydag ef ac mae'n nodi eu rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ymdrin â phryderon. Roedd y polisi i fod i gael ei adolygu yn 2018 ac mae bellach yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi dyddio **(Argymhelliad 5)**.

50 Yn erbyn targed cenedlaethol i ymateb i 75% o gwynion o fewn 30 diwrnod, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd gyfradd cydymffurfio o 69% yn ystod 2020-21. Mae hyn yn welliant o un flwyddyn i'r llall rhwng 2018 a 2021 ac rydym yn deall bod perfformiad yn dal i wella. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod effaith y pandemig yn arwain at fwy a mwy o gwynion yn yr isadran Gofal wedi'i Drefnu. Mae niferoedd y cwynion yn codi'n gyson oherwydd pwysau ar wasanaethau ac arosiadau maith.

51 Mae niferoedd da'n mynychu hyfforddiant staff ar 'weithio i wella' ac mae'r hyfforddiant yn cael adborth cadarnhaol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Cwynion a system dracio i fonitro cynnydd gyda chwynion corfforaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio gwersi o bryderon,

cwynion, digwyddiadau a threfniadau gwneud iawn am gamweddau i adnabod y gwelliannau sy'n ofynnol. Caiff y rhain eu nodi yn yr adroddiadau Gweithio i Wella ac Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion blynyddol. Er enghraifft, mae'r adroddiad diweddaraf yn amlygu agweddau ar driniaeth glinigol, asesu, materion cyfathrebu, ac amseroldeb apwyntiadau fel y prif themâu sy'n codi o bryderon a chwynion.

Gwrando ar bryderon staff

52 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio polisi a gweithdrefn hysbysu ynghylch digwyddiadau Cymru gyfan a system Datix i godi pryderon a rhoi cymorth i ddysgu o brofiadau staff. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ynghylch cyfrifoldebau'r holl staff a'r broses ar gyfer codi pryderon, gan gynnwys chwythu'r chwiban. Mae gan yr holl staff fynediad at y system; fodd bynnag, ceir anghysonderau ar lefelau corfforaethol a gweithredol o ran lefelau'r hyfforddiant a ddarperir ar hysbysu ynghylch pryderon neu ddigwyddiadau trwch blewyn.

53 Canfu ein hadolygiad ni fod polisi 'drws agored' ymhlith uwch aelodau o staff y Bwrdd Iechyd lle caiff pryderon staff eu dwyn i'w sylw'n gyfrinachol. Cawsom ein hysbysu hefyd am amryw ddulliau eraill i ddeall pryderon staff megis arolygon pwrpasol, cyfarfodydd ymadael, fforymau staff a sesiynau 'gofynnwch i'r Prif Weithredwr' ar y fewnrwyd. Ond mae ein gwaith yn awgrymu bod rhagor i'w wneud i fynd i'r afael â phryderon staff a dangos lle cymerwyd camau gwella, neu weithredu i leihau i'r eithaf yr achosion o wallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol yn y dyfodol. Canfu ein harolwg mai dim ond 30 allan o 83 aelod o staff oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan staff a bod ychydig dros hanner yr ymatebwyr (44 allan o 83) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn gweithredu i leihau i'r eithaf y tebygolrwydd y ceir gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol yn y dyfodol **(Argymhelliad 3)**.

Storïau cleifion

54 Mae storïau cleifion yn cael eu defnyddio gan y sefydliad yng nghyfarfodydd y Bwrdd, y pwyllgor ADDC ac mewn amryw ddigwyddiadau dysgu. Roedd storïau cleifion yn cael sylw'n rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd cyn y pandemig. Ers mis Ebrill 2021, mae profiad cleifion ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn eitem sefydlog ar yr agenda. Er y bu anawsterau o ran coladu'r wybodaeth am brofiad cleifion yr oedd ei hangen dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyfle i ddychwelyd mynychder y defnydd o storïau cleifion i lefelau cyn y pandemig. Pan y'u defnyddir, mae storïau cleifion yn gysylltiedig ag eitemau ar yr agenda.

55 Mae'r pwyllgor ADDC yn cael enghreifftiau penodol o storïau cleifion fel rhan o'i adroddiadau sicrwydd mewn perthynas â gwrando ar adborth a dysgu ohono. Mae staff y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau nifer o storïau cleifion digidol. Mae'r rhain yn cynnwys profiad claf o COVID-19 yn yr Uned Gofal Dwys, a phrofiad claf yn y gwasanaethau canser. Fodd bynnag, nid yw'n glir ble y cyflwynir y storïau hyn.

Canfuom dystiolaeth gyfyngedig hefyd i ddynodi a yw storïau cleifion yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd Grwpiau Diogelwch Cleifion ac Ansawdd isadrannau a chyfarwyddiaethau.

Troeon diogelwch cleifion

56 Mae troeon diogelwch cleifion yn darparu dealltwriaeth ar gyfer aelodau annibynnol am y realiti ar gyfer staff a chleifion, gan wneud data'n fwy ystyrlon a darparu sicrwydd o fwy nag un ffynhonnell. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailddechrau'r rhaglen o droeon ar ôl eu hatal am y tro oherwydd y pandemig. Fe wnaeth Aelodau Annibynnol sylwadau cadarnhaol am y troeon. Maent yn dynodi bod y troeon yn helpu i driongli gwybodaeth, cael ymdeimlad o forâl staff a dealltwriaeth am y materion o ddydd i ddydd sy'n effeithio ar staff.

Arolygiadau mewnol ac allanol

57 Mae ein gwaith yn dynodi bod nifer yr argymhellion gan AGIC sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith wedi gostwng dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei drefniadau ar gyfer monitro a lledaenu canfyddiadau ac argymhellion o adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae'n cynnal offeryn tracio manwl y mae'n ei ddefnyddio i fonitro cynnydd o ran rhoi'r gwelliannau gofynnol sy'n deillio o arolygiadau AGIC ar waith ar draws y sefydliad.

58 Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu'r offeryn tracio'n chwarterol cyn cyfarfod y pwyllgor ADDC. Nid yw'r offeryn tracio manwl yn cael ei rannu gyda'r pwyllgor ADDC ond gallai gwneud hynny helpu i ddarparu lefel fwy o sicrwydd. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor yn cael diweddariadau ar arolygiadau AGIC fel rhan o'i adroddiadau sicrwydd. Mae diweddariadau'n darparu manylion arolygon AGIC a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, a chanfyddiadau cadarnhaol a meysydd i'w gwella.

59 Mae'r pwyllgor ADDC yn cael adroddiadau sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch a all gyfeirio at ganfyddiadau o adolygiadau Archwilio Mewnol lle mae'r rhain yn berthnasol. Ond ar hyn o bryd, nid yw adroddiadau Archwilio Mewnol sy'n canolbwyntio ar faterion ansawdd a diogelwch yn cael eu cynnwys ar agenda'r pwyllgor yn eu rhinwedd eu hunain. Gallai hyn olygu nad yw rhai aelodau'n cael golwg lawn ar risgiau i ansawdd a diogelwch ac mae'n cyfyngu ar gyfleoedd i graffu a darparu sicrwydd.

Strwythurau a phrosesau llywodraethu

60 Fe wnaeth ein gwaith ystyried i ba raddau y mae strwythurau a phrosesau sefydliadol ar ac islaw lefel y Bwrdd o gymorth i ddarparu gwasanaethau sydd o ansawdd da, yn ddiogel ac yn effeithiol.

61 Canfuom **gydgyfrifoldeb am lywodraethu ansawdd ymhlith Arweinyddiaeth Weithredol y Bwrdd Iechyd a bod strwythurau a phrosesau corfforaethol yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, ceir bylchau mewn llifoedd sicrwydd gydag angen i gryfhau sicrwydd ansawdd a diogelwch 'o'r llawr i'r bwrdd'.**

Dyluniad sefydliadol i ategu llywodraethu effeithiol

62 Ceir cydgyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch ymhlith Arweinyddiaeth Weithredol y Bwrdd Iechyd. Mae gan Swyddogion Clinigol Gweithredol y Bwrdd Iechyd ddull colegaidd a chadarn o ymdrin ag ansawdd a diogelwch a gefnogir gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Gyda'i gilydd maent yn darparu uwch gapasiti a ffocws ychwanegol o safbwyntiau meddygol, nyrsio a chleifion. Bydd Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Iechyd yn ymddeol ym mis Gorffennaf 2022 ac felly bydd angen i'r Bwrdd Iechyd recriwtio i'r rôl hon.

63 Mae swyddogion clinigol gweithredol y Bwrdd Iechyd a'u timau'n mynychu cyfarfodydd 'hydl clinigol' wythnosol i drafod materion ansawdd a diogelwch cleifion. Mae'r tîm gweithredol yn cael adroddiadau rheolaidd sy'n nodi materion a risgiau o'r cyfarfodydd hydl hyn yn ystod ei eitem sefydlog ar yr agenda ar ansawdd a diogelwch cleifion.

Fframwaith ansawdd a diogelwch

64 Ym mis Mawrth 2020, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo fframwaith sicrhau ansawdd y Bwrdd Iechyd. Diben y fframwaith yw goleuo a chefnogi'r Bwrdd a'r pwyllgor ADDC o ran ei ffocws ar ansawdd a gwella ansawdd. Mae'r fframwaith wedi'i fapio i Safonau Iechyd a Gofal ac yn nodi strwythur sicrhau ansawdd y Bwrdd Iechyd. Roedd y broses o gymeradwyo'r fframwaith a'i roi ar waith yn cyd-daro â phandemig COVID-19 a gafodd effaith ar gynnydd i wreiddio'r dull ar draws y Bwrdd Iechyd.

65 Mae'r fframwaith sicrhau ansawdd yn disgrifio strwythur sy'n cynnwys ystod o bwyllgorau a grwpiau a'r rheiny'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar ansawdd a diogelwch. Er enghraifft, mae'r Safon Iechyd a Gofal ar gyfer strwythur 'gofal diogel' yn cynnwys pwyllgorau trosfwaol, megis y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a ategir gan is-grwpiau gan gynnwys y Pwyllgor Diogelwch Tân Strategol a'r Grŵp Codi a Chario. Mae'n ofynnol i bob grŵp ddarparu sicrwydd ar gyfer y Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion ac, yn y pen draw, y pwyllgor ADDC a'r Bwrdd. Mae o gymorth bod y fframwaith yn nodi meysydd nad oeddent wedi darparu sicrwydd yn flaenorol. Fodd bynnag, ceir bylchau yn y llifoedd sicrwydd o rai is-grwpiau ac mewn perthynas â rhai elfennau o'r Safonau Iechyd a Gofal, er enghraifft, Cyfathrebu'n Effeithiol (Safon Iechyd a Gofal 3.2).

66 Mae'r fframwaith yn weddol gynhwysfawr ar lefel gorfforaethol. Ond nid yw'n rhoi disgrifiad llawn o'r strwythur a phrosesau gweithredol ar gyfer ansawdd a

diogelwch a sut y mae'r rheiny'n cyd-fynd â'r strwythurau corfforaethol i ddarparu sicrwydd ansawdd a diogelwch 'o'r llawr i'r bwrdd'. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw elfennau o'r fframwaith a'r strwythur yn gweithio fel a fwriadwyd ac maent wedi nodi hyn fel maes allweddol ar gyfer cyflawni yn y cynllun blynyddol **(Argymhelliad 6)**.

Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion

67 Mae pwyllgor ADDC y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am roi sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch. Cafodd cylch gorchwyl y pwyllgor ADDC eu diwygio ym mis Ebrill 2021 mewn ymateb i newidiadau a wnaed i strwythur llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Nod y newidiadau yw cyflawni dull gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chydnabod yr angen i fod â mwy o ffocws ar ddeilliannau.

68 Canfu ein gwaith fod y pwyllgor yn dod yn fwy effeithiol. Fe wnaethom nodi papurau eglur a chryno a mwy o ffocws ar risg a deilliannau. Fe wnaeth Aelodau Annibynnol sylwadau cadarnhaol am ansawdd cyfarfodydd y pwyllgor ac roeddent yn fodlon ar y cyfan ar lefel ac ansawdd y sicrwydd y maent yn ei gael. Fel rhan o'n harchwiliad, fe wnaethom arsylwi ar y pwyllgor ar sawl achlysur. Canfuom drafodaethau, craffu a herio o ansawdd da gan aelodau annibynnol. Ceir ymwneud amlddisgyblaethol mewn cyfarfodydd i bennu agendâu gan sicrhau tryloywder a chydbwysedd o ran sylw i faterion ansawdd a diogelwch yn y cyfarfod.

Y Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion

69 Mae Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am roi sicrwydd a chyngor i'r pwyllgor ADDC mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch. Cynhelir cyfarfodydd deufisol y grŵp cyn y pwyllgor ADDC. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Teuluoedd a Therapïau gyda chynrychiolaeth o holl isadrannau gweithredol ac adrannau corfforaethol y Bwrdd Iechyd. Rhoddodd staff y Bwrdd Iechyd wybod i ni bod cyfranogiad gweithredol yn y cyfarfod wedi gwella yn dilyn cyflwyno trefniadau cyfarfodydd rhithwir yn ystod y pandemig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adolygu rôl y grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion o fewn strwythur sicrhau ansawdd y Bwrdd Iechyd i sicrhau ei fod yn cael ac yn darparu sicrwydd priodol ynghylch ansawdd a diogelwch.

Grŵp / Grwpiau Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Isadrannau / Cyfarwyddiaethau

70 Mae cylch gorchwyl y grŵp Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Isadrannol Gofal wedi'i Drefnu (Grŵp DCAI) yn dynodi cyfrifoldeb am ddarparu sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch ar gyfer grwpiau a phwyllgorau corfforaethol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, canfu ein gwaith ni nad yw'r grŵp yn darparu adroddiad sicrwydd

pwrpasol a bod diffyg eglurder ynghylch llifoedd sicrwydd o lefelau isadrannol i lefelau corfforaethol.

71 Mae'r grŵp DCAI yn cwrdd yn fisol ac yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Isadrannol ar gyfer Gofal wedi'i Drefnu. Mae cylch gorchwyl y grŵp yn nodi aelodaeth amlddisgyblaethol. Mae hyn yn cynnwys y cyfarwyddwr isadrannol a nyrs isadrannol, arweinwyr meddygol a nyrsio ar gyfer diogelwch cleifion ac ansawdd, ac uwch gynrychiolwyr ar gyfer Gweithio i Wella, ac Iechyd a Diogelwch. Er bod yr aelodaeth arfaethedig yn briodol, canfu ein gwaith achosion lle nad oedd rhai aelodau, er enghraifft cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch, wedi bod mewn cyfarfod nac wedi darparu diweddariad am beth amser, gan adael bwlch o ran sicrwydd. Roedd hefyd yn aneglur a yw cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth yn mynychu'r cyfarfod hwn. Mae staff y Bwrdd Iechyd yn dynodi bod dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer y grŵp yn cael eu diwygio fel eu bod yn cyd-fynd â diwrnodau archwilio cyfarwyddiaethau i wella presenoldeb

Adnoddau ac arbenigedd i ategu trefniadau llywodraethu ansawdd

72 Yn gorfforaethol mae sawl tîm yn gweithio i ategu materion ansawdd a diogelwch yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r Tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a'r Tîm Gweithio i Wella yn atebol i'r Cyfarwyddwyr Nyrsio Cynorthwyol ar gyfer Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac Ansawdd a Diogelwch yn y drefn honno. Mae hyn yn ychwanegol at ABCi, Tîm Cymorth y Cyfarwyddwr Meddygol, a Thimau Atal a Rheoli Heintiau y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

73 Mae'r Tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (9.8 CagALl, 12 unigolyn) yn darparu amrywiaeth o hyfforddiant a chymorth ar gyfer meysydd gweithredol ar arolygon cleifion, datblygu metrigau profiad cleifion a storïau cleifion digidol. Mae'r tîm wedi ehangu dros y tair blynedd ddiwethaf trwy recriwtio Cydlynydd Cymdeithion Diwedd Oes a Hyfforddwr Sgiliau Clinigol ar gontractau tymor penodol.

74 Rôl y Tîm Gweithio i Wella (11.9 o staff CagALl, 14 unigolyn) yw rhoi hyfforddiant a chymorth i staff gweithredol, er enghraifft hyfforddiant ar ymdrin â chwynion yn effeithiol a bod yn swyddog ymchwilio effeithiol. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd wybod i ni bod 150 o aelodau o staff wedi'u hyfforddi i ymchwilio i gwynion a 101 o aelodau o staff wedi'u hyfforddi i ymchwilio i ddigwyddiadau ar draws y Bwrdd Iechyd. Nid oes unrhyw swyddi gwag o fewn y tîm ar hyn o bryd ac mae ei faint a'i gyfansoddiad wedi aros yn weddol gyson dros y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, bu rhai newidiadau i'w strwythur gan arwain at recriwtio a newidiadau mewn personél.

75 Ceir tîm sydd wedi'i neilltuo i Atal a Rheoli Heintiau (14.8 CagALl, 17 unigolyn). Mae'n rhoi hyfforddiant a chymorth i staff gweithredol yn unol â strategaeth hyfforddiant atal heintiau'r Bwrdd Iechyd ac mae wedi addasu mewn ymateb i bandemig COVID-19. Yn ddiweddar, mae'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau wedi cael cyllid i wella'r agwedd gofal sylfaenol ar y rôl hon. Mae'r pandemig wedi gosod

galwadau ychwanegol sylweddol ar y tîm, ac mae hyn yn cyfyngu ar faint o waith atal a rheoli heintiau rhagweithiol y mae'n ei wneud.

76 Ar lefel weithredol, mae gan yr isadran Gofal wedi'i Drefnu a'r gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol arweinwyr dynodedig ar gyfer sawl agwedd allweddol ar ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys rheoli pryderon, rheoli risg, atal a rheoli heintiau, gwella ansawdd, Datix ac iechyd a diogelwch. Mae ganddynt hefyd arweinwyr dynodedig ar gyfer ansawdd a diogelwch. Maent yn cynorthwyo gydag ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol, yn cefnogi wardiau ac adrannau mewn perthynas â'r system Datix, yn mynychu cyfarfodydd gwella ansawdd ac yn cynrychioli'r isadran mewn cyfarfodydd lle mae ffocws ar ansawdd a diogelwch. Fodd bynnag, canfuom nad oes gan rai arweinwyr dynodedig amser wedi'i ddiogelu i gyflawni nifer o'r rolau hyn. **(Argymhelliad 7)**. Hefyd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd arweinwyr dynodedig ar gyfer profiad cleifion na thîm wedi'i neilltuo i brofiad cleifion megis Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS). Mae hyn yn cyferbynnu â rhai Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn deall bod y Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn ystyried model ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth hwn.

Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd

77 Fe wnaeth ein gwaith ystyried a yw trefniadau ar gyfer monitro perfformiad ac adrodd arno ar lefel weithredol a lefel strategol yn darparu ffocws digonol ar ansawdd a diogelwch cleifion.

78 Canfuom fod **trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ansawdd a diogelwch ar lefel gorfforaethol yn gwella, ond bod angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu trefniadau ar lefel weithredol i sicrhau ei fod yn cael sicrwydd priodol ynghylch ansawdd a diogelwch ei wasanaethau.**

Gwybodaeth ar gyfer craffu a sicrwydd

79 Mae adroddiad perfformiad a dangosfwrdd perfformiad integredig y Bwrdd yn darparu gwybodaeth am berfformiad yn erbyn mesurau Fframwaith Cyflawni GIG Cymru gan gynnwys cwynion a heintiau a ddaliwyd wrth gael gofal iechyd. Mae'r adroddiad Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion yn fwy cryno, ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau. Mae'n cynnwys metrigau ansawdd, gan gynnwys heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, COVID-19, niwed pwyso a chwympiadau cleifion mewnol. Mae hefyd yn darparu mwy o eglurder ynghylch themâu sy'n dod i'r amlwg, meysydd sy'n achosi pryder, lliniaru, ac arfer da. Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar ofal eilaidd, mae'n cynnwys agweddau ehangach ar fusnes y Bwrdd Iechyd megis Gwasanaethau Iechyd Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau'r modd yr adroddir ar y gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu comisiynu'n uniongyrchol.

80 Ar lefel weithredol, mae'r grŵp Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Isadrannol yn cael cyflwyniadau ac yn adolygu adroddiadau a dangosfyrddau perfformiad â gwybodaeth am reoli heintiau, adroddiadau ar ddigwyddiadau, data ynghylch pryderon a gwybodaeth am iechyd a diogelwch. Mae rhai papurau ategol ar gael ymlaen llaw ac yn cael eu hatodi wrth agendâu cyfarfodydd, ond nid yw hynny'n wir am lawer. Gall hyn fod yn cyfyngu ar y cyfle i'r rhai sy'n bresennol adolygu gwybodaeth ymlaen llaw a chraffu a herio'n ddigonol mewn cyfarfodydd.

81 Mae'r pedwar niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn dal i fod yn ystyriaeth allweddol ar Fframwaith Ansawdd y Bwrdd o fewn y Bwrdd Iechyd ac mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno a'i huwchgyfeirio'n rheolaidd trwy adroddiad dangosfwrdd diogelwch i'r pwyllgor ADDC. Er bod materion COVID-19 yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau a phapurau amrywiol ar gyfer y Bwrdd, gallai dileu diweddariadau ar COVID-19 fel eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd fod yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddarparu sicrwydd.

82 Mae cynllun blynyddol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys gofynion i fireinio dangosyddion ansawdd ei ddangosfwrdd ansawdd a diogelwch a chynyddu capasiti a gallu isadrannau a'i dimau corfforaethol i ddefnyddio data i ategu ansawdd a diogelwch.

Sylw i faterion ansawdd a diogelwch cleifion

83 Mae cylch gwaith y pwyllgor ADDC yn glir mewn perthynas â goruchwylio ansawdd a diogelwch ac mae ei agendâu'n cyd-fynd â'r prif risgiau i ansawdd a diogelwch yn y Bwrdd Iechyd. Mae agendâu'n cynnwys gwybodaeth reolaidd am adborth cleifion mewn gwasanaethau ac adroddiadau ar arolygiadau ac adolygiadau allanol. Mae uwch arweinwyr y Bwrdd Iechyd yn ymatebol i geisiadau gan y pwyllgor am wybodaeth ychwanegol sy'n deillio o bryderon a nodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol. Mae cadeirydd y grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cyflwyno sicrwydd i'r pwyllgor ADDC ynghylch gweithgareddau'r grŵp. Canfu ein hadolygiad ni o'r adroddiadau diweddaru eu bod yn darparu gwybodaeth am risgiau i ansawdd a diogelwch mewn isadrannau, a chrynodeb o faterion allweddol sy'n codi o eitemau eraill a ystyriwyd yn ystod y cyfarfod. Ategir hyn gan wybodaeth ychwanegol gan gadeirydd y grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch ac uwch swyddogion y Bwrdd Iechyd fel rhan o'i gyflwyniad a thrafodaeth yn ystod cyfarfodydd y pwyllgor.

84 Yn weithredol, mae'r grŵp Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Isadrannol yn defnyddio agenda safonedig sy'n cwmpasu agweddau allweddol ar ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys atal a rheoli heintiau, digwyddiadau difrifol, rhybuddion diogelwch, cwynion a phryderon, risgiau isadrannol ac adborth Datix i staff. Mae'r grŵp hefyd yn canolbwyntio ar welliannau ehangach i ansawdd. Un enghraifft o hyn yw ei oruchwyliaeth reolaidd ar y rhaglen gwella theatrau a sefydlwyd mewn ymateb i 'ddigwyddiadau byth' a gafwyd yn y gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol. Mae'r grŵp Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Isadrannol yn rheoli ei log gweithredu mewn modd gweithredol a hwnnw'n cynnwys manylion camau

gweithredu, dyddiadau cwblhau, swyddogion arweiniol a diweddariadau ar gynnydd.

85 Yn ddiweddar mae'r gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol wedi sefydlu ei grŵp Diogelwch Cleifion ac Ansawdd ei hun, ond mae yn y cyfnod cynnar. Ar adeg ein hadolygiad ni, nid oedd cylch gorchwyl, agenda safonedig na thempledi adroddiadau gan y grŵp ac er bod log gweithredu'n cael ei gynnal, ni chymerir cofnodion o gyfarfodydd. Mae'r grŵp Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Isadrannol yn ystyried cyflwyno agendâu safonedig, templedi adroddiadau a chynlluniau diogelwch cleifion ac ansawdd a bylchau yn llif gwybodaeth am ansawdd a diogelwch ar draws ei gyfarwyddiaethau. Dylai hyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r anghysonderau yn nulliau'r cyfarwyddiaethau.

86 Mae ein hadolygiad o agendâu a phapurau ar gyfer y cyfarfodydd sicrwydd misol gyda'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau'n dynodi ffocws ar ansawdd a diogelwch, yn enwedig mewn perthynas â phryderon, digwyddiadau difrifol a rheoli heintiau. Fodd bynnag, daeth y cyfarfodydd hyn i ben ym mis Mawrth 2021 ac nid ydynt wedi ailddechrau. Rydym hefyd yn nodi ffocws ar ansawdd a diogelwch mewn adolygiadau chwemisol gyda'r Tîm Gweithredol. Fodd bynnag, canfuom ffocws cyfyngedig ar ansawdd a diogelwch yng nghyfarfodydd tîm rheoli'r isadran Gofal wedi'i Drefnu gyda rhai cyfarfodydd yn canolbwyntio'n bennaf ar gyllid, perfformiad a materion gweithredol **(Argymhelliad 8)**.

Atodiad 1

Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

Arddangosyn 1: ymateb y rheolwyr

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Rheoli risg A1 Caiff risgiau isadrannol eu cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion, ond cyfyngedig oedd y dystiolaeth o ddadansoddi a thrafod manwl. Ceir tystiolaeth gyfyngedig hefyd bod y gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol yn cynnal cofrestrau risgiau sy'n nodi risgiau i ansawdd a			

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
diogelwch a chamau lliniaru mewn modd digonol. Dylai'r Bwrdd Iechyd: • sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer craffu, herio, trafod ar draws isadrannau a rhannu arfer da mewn perthynas â risgiau isadrannol yn y Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion. • sicrhau bod cofrestrau risgiau'n cael eu cwblhau a'u cynnal ar draws pob cyfarwyddiaeth a'r rheiny'n nodi risgiau i ansawdd a diogelwch a chamau lliniaru a bod trefniadau priodol ar gyfer uwchgyfeirio risgiau.	Mae ffurf a gweithrediad y Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, gan amcanu at gryfhau goruchwyliaeth ar Risg. Mae BIPAB yn y broses o gyflwyno'r System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru gyda'r modiwl Risg yn rhan o gam cyflwyno yn y dyfodol. Bydd hwn yn sbardun i wella perchnogaeth Isadrannol ar reoli a lliniaru risg. Bydd rhaglen i godi ymwybyddiaeth Isadrannol yn cael ei chyflwyno ar draws BIPAB i gryfhau prosesau rheoli risg. Bydd cyfrifoldeb Cyfarwyddwyr Isadrannol yn cael ei atgyfnerthu o ran cynnal cofrestrau a sicrhau camau lliniaru priodol.	Mehefin 2022 Hydref 2022 Mai 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd Cyfarwyddwr Llywodraethu Clinigol Cyfarwyddwr Llywodraethu Clinigol

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Archwilio clinigol A2 Yn ystod ein hadolygiad, roedd y Bwrdd Iechyd wrthi'n diweddaru ei strategaeth a pholisi archwilio clinigol ac wrthi'n datblygu cynllun archwilio clinigol ar wahân. Roedd cylch gorchwyl grŵp Effeithiolrwydd a Safonau Clinigol y Bwrdd Iechyd ar ffurf dogfen ddrafft ac yn cynnwys gwybodaeth a oedd wedi dyddio. Ar lefel weithredol, mae capasiti archwilio clinigol yn gyfyngedig ac nid yw systemau i rannu gwersi ac arfer da wedi'u gwreiddio nac yn systematig. Dylai'r Bwrdd Iechyd: • gwblhau'r gwaith ar ei strategaeth, polisi a chynllun archwilio clinigol. Dylai'r cynllun gwmpasu archwiliadau	Mae'r strategaeth a pholisi Archwilio Clinigol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cadarnhau erbyn mis Mehefin 2022. Mae Platfform Archwilio Clinigol Digidol wedi cael ei gaffael i roi cymorth i gyflawni cynlluniau archwilio Clinigol Isadrannau, Cyfarwyddiaethau	Mehefin 2022	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
cenedlaethol gorfodol, archwiliadau corfforaeth-gyfan a lleol a oleuir gan feysydd risg. Dylai'r cynllun hwn gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion a dylai cynnydd o ran ei gyflawni gael ei fonitro'n rheolaidd. • diweddaru a chwblhau cylch gorchwyl y Pwyllgor Effeithiolrwydd a Safonau Clinigol. • sicrhau bod digon o adnoddau a chapasiti ar gyfer archwilio clinigol ar lefel weithredol. • sicrhau bod systemau ar gyfer dysgu ac arfer da o archwilio	a Chorfforaethol sydd wedi'u bwriadu i ddarparu sicrwydd ynghylch meysydd sy'n flaenoriaeth uchel. Wedi'i gwblhau Bydd BIPAB yn cynnal adolygiad o'r adnoddau a'r capasiti sydd ar gael i roi cymorth i gwblhau'r rhaglen Archwilio Clinigol Genedlaethol. Y Grŵp Safonau ac Effeithiolrwydd Clinigol yw'r fforwm lle trafodir ac y cyflwynir archwiliadau Clinigol i sicrhau craffu a sicrwydd. Cyflwynir adroddiadau chwemisol i'r PADDC i ddarparu sicrwydd ynghylch perfformiad clinigol a datblygu	Amherthnasol Awst 2022 Mehefin 2022	Amherthnasol Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
clinigol yn cael eu gwreiddio ar draws y sefydliad.	cynlluniau gweithredu i ymdrin â gwelliannau gofynnol. Bydd adolygiad o aelodaeth y grŵp yn cael ei gynnal i gefnogi cynrychiolaeth lsadrannol well.		

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Gwerthoedd ac ymddygiadau A3 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau sydd wedi hen ymsefydlu ac sy'n nodi ei weledigaeth ar gyfer diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch cleifion. Fodd bynnag, ceir darlun cymysg mewn perthynas â'r diwylliant o ran hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol a chodi pryderon a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â hwy. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud gwaith i ddeall pam fod rhai aelodau o staff yn teimlo:			

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
• nad ydynt yn cael eu trin yn deg neu'n cael adborth wrth hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol. • nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar bryderon y maent yn eu codi neu'n gweithredu i leihau i'r eithaf y tebygolrwydd y bydd gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol	Mae Fframwaith Gwerthoedd BIPAB wedi cael ei ddiweddaru'n ddiweddar. Mae'n amlwg bod angen atgoffa rheolwyr ac arweinwyr i sicrhau adborth ar gyfer staff sydd wedi codi pryderon a bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu trwy Driwriaethau Isadrannol ar gyfer rhaeadru. Bydd adolygiad o bryderon a godwyd gan staff a'r camau gweithredu a gymerwyd yn cael ei gynnal i ddarparu sicrwydd.	Hydref 2022 Hydref 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Profiad cleifion A4 Er bod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio ystod o ddulliau i gasglu gwybodaeth am brofiad cleifion, nid yw diweddariadau rheolaidd am adborth cleifion wastad yn cael eu darparu ar gyfer meysydd gwaith neu adrannau ac nid yw trefniadau'n systematig ar draws y sefydliad na'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu. Dylai'r Bwrdd Iechyd: • wneud gwaith i ddeall pam nad yw diweddariadau am adborth cleifion yn cael eu darparu'n rheolaidd ar gyfer meysydd gwaith neu adrannau.	Mae achos busnes wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer caffael 'Civica' fel rhan o'r System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru. Os bydd yn cael ei gefnogi bydd hwn yn cryfhau'r gallu i gasglu gwybodaeth am brofiad cleifion yn fyw, proses y bydd Isadrannau a Chyfarwyddiaethau'n ei pherchnogi, gan gryfhau adborth.	Medi 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
• sicrhau bod trefniadau systematig ar gyfer coladu a gweithredu ar wybodaeth am brofiad cleifion ar draws y sefydliad a'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu.	(Fel yr ymateb uchod)		

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Gweithio i Wella A5 Roedd Polisi Gweithio i Wella'r Bwrdd Iechyd i fod i gael ei adolygu yn 2018 ac mae'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi dyddio. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddaru'r Polisi Gweithio i Wella fel mater o flaenoriaeth.	Bydd y polisi GiW yn cael ei ddiweddaru gydag estyniad i'r dyddiad yng ngoleuni'r ffaith bod Llywodraeth Cymru'n adolygu polisi GiW i gyd-fynd â rhoi'r Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu ar waith.	Mehefin 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Fframwaith ansawdd a diogelwch A6 Mae fframwaith sicrhau ansawdd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys ystod o bwyllgorau a grwpiau sy'n cyd-fynd â Safonau Iechyd a Gofal. Mae'r fframwaith yn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i adnabod meysydd nad oeddent wedi darparu sicrwydd yn flaenorol. Fodd bynnag, ceir bylchau o hyd yn y llifoedd sicrwydd o rai is-grwpiau ac mewn perthynas ag elfennau o'r Safonau Iechyd a Gofal. Er bod y fframwaith yn weddol gynhwysfawr ar lefel gorfforaethol, nid yw'n disgrifio'r strwythur a phrosesau gweithredol ar gyfer ansawdd a diogelwch yn llawn. Dylai'r Bwrdd Iechyd:			

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
• cwblhau ei adolygiad o'r fframwaith ansawdd a sicrwydd i sicrhau bod llifoedd sicrwydd yn briodol, a bod y fframwaith yn gweithredu fel a fwriadwyd. • disgrifio'r strwythurau a phrosesau gweithredol ar gyfer ansawdd a diogelwch o fewn y fframwaith sicrhau ansawdd a sut y maent yn cyd-fynd â'r strwythur corfforaethol i ddarparu sicrwydd 'o'r llawr i'r bwrdd'.	Bydd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn cael ei adolygu i asesu addasrwydd ar gyfer y diben a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Bydd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd diwygiedig yn cynnwys y strwythurau a phrosesau gweithredol.	Hydref 2022 Hydref 2022	Swyddogion Clinigol Gweithredol Swyddogion Clinigol Gweithredol

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Adnoddau i ategu trefniadau llywodraethu ansawdd A7 Mae gan yr isadran Gofal wedi'i Drefnu a'r gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol arweinwyr dynodedig ar gyfer sawl agwedd allweddol ar ansawdd a diogelwch. Fodd bynnag, canfuom nad oes gan rai arweinwyr dynodedig amser wedi'i ddiogelu ar gyfer y rolau hyn. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan staff gweithredol ddigon o amser a chapasiti i gyflawni'r rolau hyn yn effeithiol.	Bydd adolygiad o rolau ar gyfer Ansawdd a Diogelwch Cleifion ar draws Isadrannau'n cael ei gynnal er mwyn rhoi dull cyson ar waith (bydd hyn yn cynnwys amser i arweinwyr gyflawni eu rôl yn effeithiol).	Hydref 2022	Swyddogion Clinigol Gweithredol

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Sylw i faterion ansawdd a diogelwch A8 Yn ddiweddar mae'r gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol wedi sefydlu ei grŵp ansawdd a diogelwch cleifion ei hun. Fodd bynnag, nid oes gan y grŵp gylch gorchwyl, agenda safonedig, na thempledi adroddiadau ac ni chymerir cofnodion o gyfarfodydd. Er bod ansawdd a diogelwch wedi cael eu cynnwys mewn adolygiadau chwemisol gyda'r Tîm Gweithredol a chyfarfodydd sicrwydd misol gyda'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, rydym yn nodi bod y cyfarfodydd sicrwydd misol wedi dod i ben ym mis Mawrth 2021. Canfuom ffocws cyfyngedig ar ansawdd a			

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
diogelwch yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli'r Isadran Gofal wedi'i Drefnu. Dylai'r Bwrdd Iechyd: • adolygu'r grwpiau diogelwch ac ansawdd cleifion gweithredol i sicrhau eu bod yn cefnogi trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd yn effeithiol.	Bydd y strwythurau ansawdd a diogelwch cleifion ar gyfer pob Isadran yn cael eu hadolygu a'u nodi yn y Fframwaith Sicrhau Ansawdd diwygiedig (gweler A6).	Hydref 2022	Swyddogion Clinigol Gweithredol
• sicrhau bod cyfarfodydd / fforymau gweithredol eraill yn darparu digon o ffocws ar ansawdd a diogelwch ochr yn ochr â materion cyllid, perfformiad a gweithredol.	Bydd isadrannau'n cael eu hatgoffa i sicrhau ffocws cadarn ar ansawdd a diogelwch cleifion trwy gyfarfodydd Isadrannau a Chyfarwyddiaethau.	Mai 2022	**Swyddogion Clinigol Gweithredol**

Atodiad 2

Canfyddiadau'r arolwg staff

Arddangosyn 2: canfyddiadau'r arolwg staff

Datganiadau ynglŷn ag agweddau	Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau						
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm yr ymatebwyr
Darparu gofal diogel ac effeithiol							
1. Gofal am gleifion yw prif flaenoriaeth fy sefydliad	19	32	12	11	8	-	82
2. Rwy'n fodlon ar ansawdd y gofal yr wyf yn ei roi i gleifion	25	28	10	12	6	2	83
3. Mae digon o staff o fewn y maes yr wyf yn gweithio ynddo/yr adran yr wyf yn gweithio ynddi i roi cymorth i ddarparu gofal diogel ac effeithiol	5	17	16	18	27	-	83

4. Mae fy amgylchedd gweithio'n cefnogi gofal diogel ac effeithiol	15	25	11	16	15	1	83

Datganiadau `ynglŷn ag agweddau	Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau						Cyfanswm yr ymatebwyr
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn Gwybod	
Darparu gofal diogel ac effeithiol							
5. Rwy'n cael diweddariadau rheolaidd ar adborth cleifion ar gyfer y maes yr wyf yn gweithio ynddo / yr adran yr wyf yn gweithio ynddi	11	21	13	18	17	3	83
Rheoli pryderon cleifion a staff							
6. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion	14	35	18	4	5	7	83
7. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan staff	7	23	16	16	17	4	83

Datganiadau `ynglŷn ag agweddau	Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau						
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm yr ymatebwyr
8. Mae fy sefydliad yn annog staff i hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol	18	40	13	6	5	1	83
9. Mae staff sy'n gysylltiedig â gwall, digwyddiad trwch blewyn neu ddigwyddiad gwirioneddol yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad	11	28	24	9	4	7	83

Datganiadau ynglŷn ag agweddau	Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau						
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm yr ymatebwyr
Rheoli pryderon cleifion a staff							
10. Pan hysbysir ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau diogelwch cleifion, mae fy sefydliad yn gweithredu i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto	11	33	20	10	5	4	83
11. Rydym yn cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i wallau, digwyddiadau trwch blewyn a digwyddiadau gwirioneddol yr hysbyswyd yn eu cylch	8	26	17	18	10	4	83
12. Byddwn yn teimlo'n hyderus yn codi pryderon ynghylch arfer clinigol anniogel	18	31	15	10	7	2	83
13. Rwy'n hyderus bod fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon ynghylch arfer clinigol anniogel	12	32	21	11	6	1	83

Datganiadau ynglŷn ag agweddau	Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau						
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm yr ymatebwyr
Gweithio yn fy sefydliad							
14. Mae cyfathrebu rhwng uwch rheolwyr a staff yn effeithiol	2	27	16	18	20	-	83
15. Mae fy sefydliad yn rhoi anogaeth ar gyfer gwaith tîm	7	35	22	11	8	-	83
16. Mae gennyf ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol a gorfodol	4	25	12	25	17	-	83
17. Mae trefniadau sefydlu ar gyfer staff newydd a staff dros dro (e.e. staff asiantaeth/locwm/banc/staff wedi'u hadleoli) yn y maes yr wyf yn gweithio ynddo/ yr adran yr wyf yn gweithio ynddi yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol	7	31	23	5	10	7	83

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost:
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.